

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	25 GORFFENNAF 2012
TEITL YR ADRODDIAD:	YSTYRIED PAPUR GWYN Y LLYWODRAETH AR HYRWYDDO DEMOCRATIAETH LEOL
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CYTUNO AR YR YMATEB I'R YMGYNGHORIAD GAN LYWODRAETH CYMRU YNGHYLCH Y PAPUR GWYN AR HYRWYDDO DEMOCRATIAETH LEOL
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH SWYDDOGAETH - CYFREITHIOL A PHWYLLGORAU / SWYDDOG MONITRO

DOGFENNAU SYDD YNGHLWM

1. Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Hyrwyddo Democratiaeth Leol.

CEFNDIR

- Gofynnir i ymgynghoreion ymateb erbyn 3 Awst 2012.
- Y rhannau hynny o'r Papur Gwyn sy'n ymwneud â gwaith y Pwyllgor Safonau yw:-
 - Paragraff 52 (cwestiwn 29) a
 - Paragraffau 66 i 68 (cwestiynau 38, 39, 40, 41, 42, 43 ac 44)
- Yn ogystal â'r cwestiynau, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried unrhyw faterion cysylltiedig / perthynol eraill yn ei ymateb ffurfiol. Awgrymir y materion isod i'w trafod, ond ni ddylent rwystro'r Pwyllgor rhag cyflwyno cynigion neu sylwadau ychwanegol eraill:-
 - P'un a fydd unrhyw Brotocol Penderfyniad Lleol yn genedlaethol neu'n lleol, a ddylid cyhoeddi canllawiau neu feini prawf i gynorthwyo i nodi'r materion hynny sy'n addas i'w cyfeirio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y materion sy'n addas ar gyfer penderfyniad lleol a'r materion nad ydynt yn addas i gael sylw o gwbl?
 - Fel arall, a ddylai'r penderfyniad ynghylch addasrwydd ar gyfer penderfyniad lleol fod yn gwbl ddewisol?
 - Os bydd unrhyw elfen o ddisgresiwn, sut bydd y disgrisiwn hwn yn cael ei ddefnyddio a chan bwy?

- Os sefydlir Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol, beth ddylai'r ffin ddaearyddol fod yn eich barn chi e.e. Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, neu bob un o'r chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru?
- Os bydd Pwyllgor Safonau Rhanbarthol neu Isranbarthol, sut dylai weithredu'n ymarferol, beth yw'r anawsterau posib a sut gallwn eu goresgyn?

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau fynegi barn ar y rhannau priodol o'r ddogfen ymgynghori, yn ogystal ag unrhyw faterion perthnasol neu berthynol eraill, a chyfarwyddo'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i gwblhau a chyflwyno'r ymateb ymgynghori ar ran y Pwyllgor Safonau. Anfonir copïau o'r ymateb i bob aelod o'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Rhif: WG14987



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

Hybu Democratiaeth Leol

Dyddiad cyhoeddi: **17 Mai 2012**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **3 Awst 2012**

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod *Bil Democratiaeth Leol (Cymru)* gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn unol ag ymrwymïadau Llywodraeth Cymru i ymgynghori cyn cyflwyno deddfwriaeth, mae'r Papur Gwyn hwn yn gofyn am ymatebion i gynnwys arfaethedig y Bil ynghyd â chynigion eraill er mwyn gwella democratiaeth leol.

Sut i ymateb

Gallwch gyflwyno eich ymateb i'r cwestiynau isod erbyn **3 Awst 2012**, drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: LGDTMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Post:

Y Tîm Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/promlocdemocracy/?lang=cy>

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3094

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

HYBU DEMOCRATIAETH LEOL

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau	1
Cyflwyniad	3
Cynigion sy'n Gofyn am Ddeddfwriaeth – Bil Democratiaeth Leol (Cymru)	5
Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru	5
Diwygiadau i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011	13
Mynediad at Wybodaeth: Cynghorau Tref a Chymuned	17
Materion Eraill	18
Materion Etholiadol	18
Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol	20
Trefniadau Craffu Llywodraeth Leol	24
Hyfforddi a Datblygu Cynghorwyr	25
Atodiad A: Argymhellion Adroddiad Mathias (Saesneg yn unig)	26
Atodiad B: Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn ymateb i Adroddiad Mathias	28
Atodiad C: Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad	33
Atodiad D: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	35

Rhagair y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Mae'r Papur Gwyn hwn yn gam pellach yn ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein democratiaeth leol yn gweithredu mor effeithlon â phosibl er mwyn cwrdd â heriau'r dyddiau hyn. Rhaid i ni sicrhau bod ein hawdurdodau lleol yn cynrychioli eu cymunedau yn ddemocrataidd, yn cael eu trefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol, yn cyfathrebu'n dda â'r cyhoedd ac yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ymdopi â newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i'r cyhoedd.

Bwriedir i lawer o'r cynigion yn y ddogfen hon gael eu cynnwys mewn Bil Cynulliad y byddaf yn ei gyflwyno yn yr hydref. Mae angen i ni wella'r ffordd y mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn gweithio yn sgil Adroddiad Mathias ar raglen y Comisiwn o adolygiadau etholiadol. Yr angen o hyd yw sicrhau bod cynghorau Cymru yn cael eu hethol yn ddemocrataidd gyda phob cynghorydd, hyd y gellir, yn cynrychioli'r un nifer o etholwyr. Ond, wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod rhwymau cymunedol. Rwy'n gobeithio y bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn helpu'r Comisiwn ar ei newydd wedd i gyflawni hynny. Mae'r camau y mae'r Comisiynwyr newydd a'u staff wedi'u cymryd eisoes i ddatblygu agenda newydd wedi gwneud cryn argraff arnaf.

Rydym hefyd yn achub ar y cyfle i wella rhai o'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mewn perthynas â swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, yn ogystal â rhai o'r trefniadau pwyllgor newydd.

Rwy'n mawr obeithio hefyd y gallwn gryfhau democratiaeth ar lefel y cynghorau cymuned a thref drwy ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am awdurdodau lleol ar y lefel hon. Yn yr unfed ganrif ar hugain, nid yw'n ddigonol bellach bod yn rhaid i chi, mewn llawer achos, edrych ar hysbysfwrdd y pentref i ganfod beth mae eich cyngor cymuned yn ei wneud neu bwy yw eich cynghorwyr. Os gallwn godi eu proffil, gallai hynny ysgogi mwy o ddiddordeb mewn ymgeisio mewn etholiadau cymunedol, lle mae yna broblem gyda gormod o seddi gwag ar ôl etholiadau, a lle mae'n rhaid cyfethol ar raddfa eang i'w llenwi.

Gan droi'n gryno at y maes etholiadol, mae'r Papur Gwyn hwn hefyd yn ymdrin â rhai materion sy'n ymwneud â threfnu etholiadau a'r broses gofrestru sy'n galluogi pobl i bleidleisio. Rwyf am i etholiadau yng Nghymru gael eu trefnu i'r safonau uchaf posibl, gyda'r nifer uchaf posibl o'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio yn cael eu cynnwys ar y gofrestr o etholwyr – wrth i ni wynebu'r her o symud o gofrestru ar sail aelwydydd i gofrestru unigol – ac rwyf am i'r etholiadau gael eu rhedeg yn effeithlon ac yn gost effeithiol.

Yn olaf, hoffwn roi croeso cynnes i'r cynghorwyr hynny a etholwyd yn yr etholiadau lleol, yn aelodau newydd ac yn aelodau a ail-etholwyd. Mae angen i ni sicrhau bod holl aelodau'r awdurdodau lleol yn cael yr wybodaeth, yr hyfforddiant a'r datblygiad angenrheidiol iddynt allu gwneud eu gwaith. Mae yna lawer o newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gyda phartneriaethau rhanbarthol yn cydweithio i sicrhau y gall y cyhoedd gael y gwasanaethau gorau posibl mewn ffordd gost-effeithiol. Rhaid i'r trefniadau newydd hyn fod yn atebol i'r cyhoedd drwy drefniadau craffu lleol effeithiol, gyda chynghorwyr yn gweithio ar ran eu cymunedau lleol i sicrhau eu bod yn gwasanaethu eu buddiannau. Dyna pam y byddwn ni'n

canolbwyntio ein hymdrechion, ar y cyd â'n partneriaid, ar sicrhau ein bod yn gwella'r rhaglenni datblygu aelodau ac yn creu modelau craffu effeithiol.

Mae'r Papur Gwyn hwn a darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach wedi dod i rym, yn adlewyrchu pa mor ymrwymedig yw Llywodraeth Cymru i ddemocratiaeth leol gynrychioliadol ac atebol. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i adeiladu ar hynny gyda mentrau i wneud y broses graffu yn fwy effeithiol yn lleol ac ar lefel ranbarthol. Bydd hynny'n cynnwys canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu aelodau etholedig fel bod craffu lleol cadarn yn elfen gref sy'n ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y Rhaglen Lywodraethu ar 27 Medi 2011. Ym Mhennod 2 y Rhaglen, ceir ymrwymiad i gryfhau democratiaeth leol, gan gynnwys cynnig i gyflwyno Bil Democratiaeth ac Etholiadau (fel y'i galwyd yn y rhaglen ddeddfwriaethol ddilynol). Un o brif ddibenion y Bil fydd diwygio trefniadaeth a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn unol ag argymhellion Adroddiad Mathias¹, a edrychodd ar raglen adolygiadau etholiadol y Comisiwn.

2. Cyfeiriodd Pennod 2 o'r Rhaglen Lywodraethu hefyd at weithredu'r diwygiadau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ('Mesur 2011'). Bwriad y Mesur hwn oedd gwella ymgysylltiad cynghorau a'u haelodau â'r cyhoedd fel bod dinasyddion yn fwy ymwybodol o weithgarwch eu cynrychiolwyr lleol ac yn fwy abl i gyfranogi yn y broses ddemocrataidd. Yn sgil gweithredu Mesur 2011 dylai hefyd fod yn haws dod yn gynghorydd effeithiol drwy sicrhau bod yna ddigon o gefnogaeth weinyddol a chynghori, sicrhau y cynhelir cyfarfodydd cynghorau ar yr adegau sydd fwyaf hwylus i'r aelodau, a'i bod felly'n fwy cyfleus i fynychu cyfarfodydd, a sicrhau ei bod yn bosibl mynychu o bell.

3. Yn unol ag amcan Llywodraeth Cymru o sicrhau bod 'Llyfr Statud Cymreig' ar gael i gyfeirio ato fel ffynhonnell gynhwysfawr o'r cyfreithiau Cymreig, bwriedir i'r Bil arfaethedig (a elwir erbyn hyn yn Fil Democratiaeth Leol (Cymru)), yn ogystal â chyflwyno'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon, hefyd ddirymu a disodli'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 ('Deddf 1972') sy'n ymdrin â'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a'i weithgareddau.

4. Yn ogystal, rydym yn achub ar y cyfle yn y Papur Gwyn hwn i gyflwyno cynigion eraill sydd â'r nod o wella'r modd y mae democratiaeth leol yn gweithio, gan sicrhau ei bod yn cwrdd â heriau'r dyfodol yn effeithiol. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys:

- gwella mynediad at wybodaeth am gynghorau tref a chymuned;
- ymdrin ag effeithiolrwydd rheolaeth etholiadol yng Nghymru, o ran ei drefniadaeth ac ariannu, yn ogystal ag annog nifer fawr o bleidleiswyr i gofrestru;
- adolygu'r broses ar gyfer gwneud honiadau y gallai aelodau o awdurdodau lleol fod wedi torri'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau;
- sicrhau bod swyddogaeth graffu awdurdodau lleol, a gryfhawyd gan Fesur 2011, yn gallu gweithio'n effeithiol fel modd o sicrhau atebolrwydd cyhoeddus, wrth i ni symud yn gynyddol i gyfnod o gydweithio rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- sicrhau bod cynghorwyr, a chynghorwyr newydd 2012 yn arbennig, ond nid y rheini'n unig, yn derbyn gwell hyfforddiant a datblygiad, o ran eu gallu i

¹ THE MATHIAS REVIEW – An Independent Review into the electoral reports and electoral review processes as conducted by the Local Government Boundary Commission for Wales. (Mehefin 2011)

arwain yn lleol a'u gallu i fod yn gynrychiolwyr cymunedol effeithiol sy'n cyfranogi yn eu prosesau democrataidd lleol.

5. Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn bwysig i bawb gael y cyfle i weld y cynigion hyn, a rhoi sylwadau arnynt, cyn i unrhyw ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno.

Cynigion sy'n Gofyn am Ddeddfwriaeth – Bil Democratiaeth Leol (Cymru)

Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Y Cefndir

6. Un o brif swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ('y Comisiwn') yw adolygu strwythur pob un o brif ardaloedd cynghorau Cymru (y 22 sir) a gwneud cynigion i Weinidogion Cymru ynghylch y nifer briodol o gynghorwyr ym mhob ardal a'u dosbarthiad mewn adrannau etholiadol. Gelwir yr adolygiadau hyn fel arfer yn adolygiadau etholiadol. Mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth i'r Comisiwn wneud hynny o fewn cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau ddeng mlynedd wedi'r adolygiad blaenorol o'r cynghorau hynny. Gan i bob cyngor gael ei adolygu yn y pum mlynedd yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996, dechrau'r cyfnod ar gyfer rhai cynghorau oedd 2006. Fodd bynnag, cytunodd y Comisiwn i ohirio dechrau'r broses honno tan y cyfnod ar ôl etholiadau lleol 2008, a chwblhau'r adolygiadau cyn etholiadau 2012.

7. Dechreuodd y Comisiwn gyhoeddi'r adroddiadau drafft yn 2009, a daeth yn amlwg nad oedd y Comisiwn, wrth geisio cyflawni ei nod cyffredinol o sicrhau nifer gyfartal o bleidleiswyr, wedi gwerthfawrogi'r effaith y byddai Cyfarwyddyd Gweinidogol a chyfyngiadau ffiniau cymunedol yn ei chael ar y broses o lunio ei gynigion. O ganlyniad i'r holl ymatebion negyddol i'r adroddiadau drafft, ni lwyddodd y Comisiwn i gadw at ei amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiadau, a'r perygl oedd y gallai etholiadau 2012 gael eu cynnal gyda rhai siroedd wedi newid yn sylweddol ac eraill wedi'u gadael yn ddigyfnewid. Roedd yna nifer o enghreifftiau hefyd o wallau gweinyddol a gwallau drafftio yn rhai o'r adroddiadau drafft a gyhoeddwyd.

8. Ym mis Mawrth 2010, mewn ymateb i bryderon am y materion hyn, penododd Gweinidogion Cymru Glyn Mathias, a fu'n gwasanaethu ar y Comisiwn Etholiadol am gryn amser cyn hynny, i gynnal adolygiad ('Adolygiad Mathias') i ymchwilio i raglen adolygiadau etholiadol y Comisiwn. Canfu Adolygiad Mathias fod y Comisiwn, wrth gynnal y rhaglen adolygiadau etholiadol, wedi colli cefnogaeth llywodraeth leol a Gweinidogion Cymru ac nad oedd bellach felly yn addas at y diben. Cyflwynodd Mathias nifer o argymhellion ynghylch diwygio'r Comisiwn a'i arferion, yn ogystal â chynnig diwygio'r rheolau ar gyfer cynnal adolygiadau etholiadol a fyddai'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol.

9. Mae argymhellion Adolygiad Mathias wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

10. Ar 25 Ionawr 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Ddatganiad Ysgrifenedig (Atodiad B) mewn ymateb i argymhellion Mathias, a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ddeddfu fel y bo'n briodol. Mae'r Bennod hon o'r Papur Gwyn yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth honno.

Teitl y Comisiwn

11. Mae'r Comisiwn yn ymdrin â mwy na ffiniau. Mae'r broses adolygiadau etholiadol yn ymwneud yn gymaint â'r nifer briodol o gynghorwyr a'u dosbarthiad mewn perthynas â nifer yr etholwyr ag â'r ffiniau etholiadol. Cynigir felly bod y Comisiwn yn newid ei enw i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylid newid enw'r Comisiwn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru?

Materion cyfansoddiadol a threfniadol

12. O dan ddarpariaethau Deddf 1972, mae'r Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at dri aelod arall. Mae ganddo gworwm o ddau, fodd bynnag, ac mewn gwirionedd dim ond tri aelod o'r comisiwn sydd wedi bod ers cyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei greu yn 1997. Ni fydd terfyn uchaf maint y Comisiwn (pump) yn cynyddu, ond ystyrir ei bod yn amhriodol i benderfyniadau pwysig, naill ai mewn perthynas ag adolygiadau neu wrth reoli'r Comisiwn, gael eu gwneud gan ddau aelod yn unig. Cynigir felly cynyddu cworwm y Comisiwn i dri, a byddai'n arferol i Gadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a dau aelod arall gael eu penodi. Gallai un o'r aelodau hyn fod yn aelod wrth gefn, a byddid yn gofyn i'r aelod hwnnw wasanaethu dim ond pan fo'n glir na ellid sicrhau cworwm fel arall. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau hefyd bod y manylebau'n nodi ei bod yn ddymunol cael profiad blaenorol o reoli etholiadau neu ddal swydd uwch o fewn llywodraeth leol wrth geisio recriwtio comisiynwyr. Byddai hynny'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd proffil y Comisiwn yn fwy amrywiol nag yn y gorffennol agos.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y dylid cynyddu cworwm y Comisiwn i dri, ac y byddai'n arferol penodi Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a dau aelod arall?

Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ynghylch penodi aelod wrth gefn?

13. Cynigir hefyd y dylid moderneiddio'r darpariaethau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r gofyniad bod o leiaf un aelod yn gallu siarad Gymraeg yn adlewyrchu'r cyfnod cyn cyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi gwarchodaeth helaeth i'r Gymraeg. Yn y dyfodol, cynigir bod yr aelodau'n cael eu penodi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru² ('y cynllun iaith') o ran penodiadau cyhoeddus. Mae Adran 7.3 o'r cynllun yn ymdrin â'r angen i benodi aelodau Gymraeg eu hiaith ac i fyrddau cyrff cyhoeddus ddeall y materion sy'n effeithio ar y Gymraeg. Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw safonau iaith Gymraeg sylweddol perthnasol a osodir ar Weinidogion Cymru yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno bod y darpariaethau a amlinellir yn adran 7.3 o gynllun iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn briodol mewn perthynas â phenodi aelodau'r Comisiwn?

² Cynllun Iaith Gymraeg 2011 – 2016, cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011. Gallwch weld y manylion yn www.cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/?lang=cy

14. Bydd Aelodau'r Comisiwn yn parhau i gael eu penodi gan Weinidogion Cymru yn dilyn proses benodi a hysbysebwyd yn gyhoeddus, yn seiliedig ar egwyddorion teilyngdod, tegwch a bod yn agored, ac yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau y penderfyna Gweinidogion Cymru arnynt. Ceir darpariaeth ar hyn o bryd yn Neddf 1972 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru benodi personau eraill i ddarparu cyngor arbenigol i'r Comisiwn o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, mewn perthynas â chynnal ymchwiliadau lleol. Cynigir, ar y sail y bydd yna bedwar Comisiynydd, y gellid trosglwyddo i'r Comisiwn ei hun y pŵer i benodi personau i ddarparu cyngor arbenigol, ynghyd â'r pŵer i dalu unrhyw bersonau o'r fath.

Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ynghylch rhoi'r pŵer i'r Comisiwn benodi personau i gynnig cyngor arbenigol, ynghyd â'r pŵer i dalu unrhyw bersonau o'r fath?

15. Mae ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd yn cefnogi Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru (Seneddol). Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r trefniant hwn barhau cyhyd ag y bo'r ddau Gomisiwn yn fodlon â hynny.

Adolygiadau o ffiniau

16. Ystyr adolygiad o ffiniau yw adolygiad o'r ffiniau rhwng dau neu fwy o'r prif awdurdodau. Yn dilyn adolygiad, gallai'r Comisiwn gynnig addasu ardaloedd llywodraeth leol (prif gynghorau, cynghorau cymuned neu gymunedau) os yw'n penderfynu bod hynny'n ddymunol er mwyn sicrhau bod llywodraeth leol yn gweithredu'n effeithiol ac yn hwylus.

17. Mae'n bosibl y bydd cynigion y Comisiwn yn argymhell cyfuno dwy ardal neu fwy, neu rannu'r ardaloedd hynny a'u cysylltu ag ardaloedd eraill. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na all y Comisiwn ddefnyddio'r argymhellion hyn fel ffordd o gynnig ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ar raddfa eang. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad polisi ar newid cyfansoddiadol mor arwyddocaol â hynny, a byddai'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo deddfwriaeth i weithredu newid o'r fath.

18. Cyn cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru yn cynnig addasu ardal llywodraeth leol, cynigir bod yn rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â gweithdrefn ymgynghori benodedig. Byddai honno'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi'r adroddiad drafft, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar ei wefan a rhoi copiâu caled i Weinidogion Cymru a'r prif gyngor/gynghorau y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt. Byddai'n rhaid hysbysu'r holl ymgynghoreion ac unrhyw berson neu sefydliad a gyflwynodd sylwadau neu dystiolaeth yn ystod yr adolygiad bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi a ble y gallent weld yr adroddiad.

19. Cynigir, pa bryd bynnag y bo'r Comisiwn yn awgrymu newid ardaloedd llywodraeth leol, y byddai'n rhaid iddo hefyd ystyried gwneud cynigion ar gyfer newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol (hynny yw, nifer a dosbarthiad y cynghorwyr o fewn ardal y sir).

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol (nifer a dosbarthiad y cynghorwyr) wrth argymhell newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol?

20. Cynigir hefyd, os bydd unrhyw newidiadau yn effeithio ar ffiniau ardal yr heddlu, y bydd yn rhaid i'r Comisiwn hysbysu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref a fydd yn gallu, drwy orchymyn, newid ffiniau ardal yr heddlu fel eu bod yn cyd-ffinio ag unrhyw ffiniau sirol newydd arfaethedig.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno mai'r Comisiwn ddylai hysbysu'r Ysgrifennydd Cartref am unrhyw argymhellion sy'n effeithio ar ffiniau ardal yr heddlu?

21. Bydd dyletswydd ar y Comisiwn o hyd i barhau i adolygu Cymru gyfan at y dibenion hyn, a hefyd i ystyried unrhyw geisiadau am adolygiadau gan un neu fwy nag un prif gyngor.

Adolygiadau cymunedau

22. Mae adolygiad cymunedau yn archwilio ardaloedd y cymunedau o fewn sir a chaiff wneud cynigion i newid ffiniau cymunedau, newid ffiniau wardiau o fewn cymunedau, cyfuno cymunedau neu rannu cymunedau. Yn ogystal, pan fo yno gyngor cymuned, gallai'r adolygiad gynnig nifer briodol o gynghorwyr cymuned.

23. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bob prif awdurdod barhau i adolygu ei gymunedau. Rhaid iddynt roi arddodiad i'r Comisiwn bob pymtheg mlynedd ynghylch beth y maent wedi'i wneud i gwrdd â'r ddyletswydd hon, gyda'r adroddiadau cyntaf i ddod i law'r Comisiwn erbyn mis Gorffennaf 2015. Gall cyngor, os yw'n dymuno hynny, ofyn i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'i gymunedau ar ei ran, ac fe gaiff y Comisiwn godi tâl ar y prif awdurdod am wneud hynny.

24. Cynigir bod y gofyniad hwn i adolygu yn cael ei dynhau i'w gwneud yn ofynnol i brif awdurdod, unwaith y caiff ei hysbysu bod adolygiad etholiadol ar y gweill, sicrhau bod ei gymunedau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar mewn modd sy'n bodloni'r Comisiwn. Os na fydd prif awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw, bydd gan y Comisiwn y grym i gynnal adolygiad cymunedau a chodi tâl ar y prif gyngor am wneud hynny. Rhoddir y grym i'r Comisiwn hefyd i roi canllawiau i'r prif gyngor ynghylch amseru a phroses yr adolygiadau, ynghyd â'r egwyddorion y dylid eu dilyn.

Cwestiwn 8: Unwaith y caiff ei hysbysu bod adolygiad etholiadol ar y gweill, a ddylai fod yn ofynnol i'r prif awdurdod sicrhau bod ei gymunedau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar mewn modd sy'n bodloni'r Comisiwn?

Cwestiwn 9: Os na fydd prif awdurdod yn dilyn y canllawiau, a ddylai'r Comisiwn gael y grym i gynnal yr adolygiad a chodi tâl ar y prif gyngor am wneud hynny?

Cwestiwn 10: Beth yw eich barn ynghylch rhoi'r grym i'r Comisiwn i roi canllawiau i'r prif gyngor ynghylch amseru a phroses adolygiadau cymunedau, ynghyd â'r egwyddorion y dylid eu dilyn?

25. Ar hyn o bryd, rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw newid y mae'r prif gyngor yn ei gynnig i'r cymunedau o fewn ardal y prif gyngor. Os yw'r Comisiwn yn cytuno, gall anfon y cynigion ymlaen at Weinidogion Cymru iddynt hwy, drwy orchymyn, wneud y

newidiadau a gynigir gan y prif gyngor. Cynigir rhoi'r pŵer i'r Comisiwn wneud gorchmynion mewn perthynas â'r adolygiadau cymunedau y mae'r prif gynghorau'n eu cynnal. Os mai'r Comisiwn fydd yn cynnal yr adolygiad o ardaloedd cymunedol, fodd bynnag, neu os bydd yn argymhell newidiadau i gynigion yr awdurdod lleol, caiff y cynigion hynny eu hanfon at Weinidogion Cymru, a fydd yn ystyried gwneud gorchmyn.

Cwestiwn 11: A ddylai'r Comisiwn gael y pŵer i wneud gorchmynion ynghylch yr adolygiadau cymunedau y mae'r prif awdurdodau'n eu cynnal?

26. Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i adolygu Cymru gyfan, neu unrhyw ardal llywodraeth leol oddi fewn iddi, er mwyn penderfynu a ddylai gynnig newidiadau mewn perthynas â'r ardaloedd a adolygir. Cânt hefyd gyfarwyddo awdurdod lleol i gynnal adolygiad cymunedau. Bydd Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer hwn i gyfarwyddo.

Adolygiadau Etholiadol

27. Ystyr adolygiad etholiadol yw'r broses o archwilio nifer y cynghorwyr o fewn pob prif ardal a chymuned, a'u dosbarthiad o fewn adrannau etholiadol a wardiau.

28. O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, mae dyletswydd ar y Comisiwn i gynnal adolygiadau etholiadol o'r holl brif ardaloedd o fewn cyfnod o ddim llai na deng mlynedd a dim mwy na phymtheng mlynedd ers yr adolygiad blaenorol. Yn dilyn adolygiad o'r fath mae'r Comisiwn yn cyflwyno cynigion i Weinidogion Cymru, a gaiff wneud gorchmyn mewn ymateb i'r cynigion.

29. Y cynnig yw y byddai gofyn i'r Comisiwn roi'r gorau i'r amserlen o ddeng i bymtheng mlynedd a dilyn cylch parhaus o adolygiadau etholiadol yn lle hynny, gan ddechrau yn 2014. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn gynhyrchu amserlen ar gyfer cylch deng mlynedd o adolygiadau, a byddai pob prif ardal yn cael ei hadolygu o fewn y cyfnod hwnnw. Wedi hynny, ni ddylai mwy na deng mlynedd fynd heibio rhwng pob adolygiad etholiadol o unrhyw brif ardal. Byddai'n un o'r gofynion hefyd na fydd unrhyw adroddiad terfynol yn cael ei gyhoedd yn y naw mis cyn diwrnod arferol etholiadau lleol, er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno unrhyw newidiadau mewn da bryd cyn unrhyw etholiad.

Cwestiwn 12: Beth yw eich barn chi ynghylch y ffaith y byddai'r Comisiwn yn gweithredu cylch parhaus o adolygiadau etholiadol, gan ddechrau yn 2014, gydag amserlen ar gyfer cylch deng mlynedd o adolygiadau yn cael ei chynhyrchu?

30. Mae'r rheolau cyfredol, a gynhwysir yn Atodlen 11 i Ddeddf 1972, yn darparu y dylai'r Comisiwn, wrth gynnal adolygiad etholiadol mewn prif ardal, ffafrio adrannau etholiadol un aelod oni bai fod Gweinidogion Cymru yn eu cyfarwyddo fel arall. Caiff y cyfarwyddiadau hynny gynnig creu ardaloedd aml-aelod mewn rhan o'r brif ardal neu'r cyfan ohoni.

31. Ar hyn o bryd, mae gofyn i'r Comisiwn anelu at sicrhau bod pob cynghorydd mewn prif gyngor yn cynrychioli, mor agos â phosibl, yr un nifer o etholwyr. Ond mae dyletswydd ar y Comisiwn hefyd i osod ffiniau sy'n hawdd i'w hadnabod ac sy'n

ystyried rhwymau cymunedol lleol. Ein bwriad ni yw y dylid rhoi ystyriaeth gyfartal i'r nodau hyn a bwriedir i'r Bil adlewyrchu'r cydbwysedd hwn yn hytrach na rhoi'r argraff bod rhwymau cymunedol yn llai pwysig na'r angen i sicrhau cymarebau penodol o etholwyr i gynghorwyr.

Cwestiwn 13: Wrth bennu ffiniau a ddylai rhwymau cymunedol lleol fod yr un mor bwysig â chyrraedd y targed o ran y gymhareb o etholwyr i gynghorwyr?

32. Cynigir y dylid cael gwared ar y ddarpariaeth gyfredol sy'n rhwystro'r Comisiwn rhag cynnig adrannau etholiadol sydd o boptu i ffiniau cymunedau, gan y gallai hynny rwystro'r Comisiwn yn ei awydd i wneud cynigion i sicrhau, hyd y gellir, bod y gymhareb o gynghorwyr i etholwyr yn gyfartal. Cynigir hefyd y caiff y Comisiwn, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol, gynnig newidiadau i ffiniau cymunedau fel rhan o adolygiad etholiadol.

Cwestiwn 14: A ddylai'r Comisiwn allu cynnig adrannau etholiadol sydd o boptu i ffiniau cymunedau?

Cwestiwn 15: A ddylai'r Comisiwn allu cynnig newidiadau i ffiniau cymunedau fel rhan o adolygiad etholiadol?

33. Cynigir y dylai'r Comisiwn, fel rhan o'i ymgynghoriad cyn adolygiad etholiadol, gynnig nifer y cynghorwyr y mae'n ei ystyried yn briodol ar gyfer pob prif gyngor, a chyhoeddi manylion nifer y cynghorwyr y mae'n ei ffafrio. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru fel rhan o'r broses hon.

Cwestiwn 16: A ddylai'r Comisiwn, fel rhan o'i ymgynghoriad cyn adolygiad etholiadol, nodi a chyhoeddi nifer y cynghorwyr y mae'n ei ystyried yn briodol ar gyfer pob brif gyngor?

Pwerau Gweinidogion Cymru

34. Yn unol â darpariaethau Deddf 1972, gall Gweinidogion Cymru, wrth dderbyn adroddiad gan y Comisiwn, wneud gorchymyn yn unol â chynigion y Comisiwn, neu un sy'n addasu cynigion y Comisiwn. Ni chaiff gorchymyn o'r fath ei wneud yn gynharach na chwe wythnos wedi derbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, a chynigir y dylai'r cyfnod hwn ar gyfer sylwadau barhau fel y mae. Hefyd, caiff y Gweinidogion gyfarwyddo'r Comisiwn i wneud adolygiad pellach o'r holl ardal sydd dan sylw, neu ran ohoni, a chynigir y dylai'r pŵer hwn barhau yn ogystal.

35. Hefyd, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn fel canllawiau iddynt wrth gynnal unrhyw fath o adolygiad. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol na ellir gwneud y cyfarwyddiadau hyn cyn ymgynghori yn gyntaf â chymdeithasau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol. Rydym yn cynnig y dylid darparu ar gyfer ymgynghori â'r Comisiwn ei hun hefyd, gyda'r nod o sicrhau, cymaint ag y bo modd, bod bwriad y cyfarwyddiadau o ran polisi yn cael ei ddeall a'i rannu.

Cwestiwn 17: A ddylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn i gyfarwyddiadau'r Gweinidogion gael eu rhoi?

Cynnal adolygiadau

36. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r Comisiwn (a'r prif gynghorau lle cynhelir adolygiad cymunedau) ymgynghori â'r personau sydd â buddiant cyn cynnal unrhyw fath o adolygiad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw awdurdod lleol y mae'r adolygiad yn effeithio arno, ynghyd ag unrhyw undeb staff sydd wedi gofyn am fod yn rhan o'r ymgynghoriad, ac unrhyw un arall sy'n briodol yn nhyb y Comisiwn neu'r prif awdurdod. Cynigir bod y Comisiwn a'r prif awdurdodau yn cael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyngor yr ardal llywodraeth leol sydd dan adolygiad ddarparu ar eu cyfer unrhyw wybodaeth yr ystyria'r Comisiwn ei bod yn berthnasol i'r adolygiad.

Cwestiwn 18: A ddylai'r Comisiwn a'r prif awdurdodau gael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyngor yr ardal llywodraeth leol sydd dan adolygiad ddarparu gwybodaeth ar eu cyfer sy'n berthnasol i'r adolygiad?

37. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn a'r prif gyngor i sicrhau bod y personau sydd â buddiant yn cael gwybod am gynigion neu orchmynion drafft a ble y gellir edrych ar y dogfennau hyn. Er y bydd y ddyletswydd hon yn parhau, cynigir newid hyn fel bod modd darparu'r dogfennau yn electronig yn unig. Gall y Comisiwn, neu'r prif gyngor, benderfynu darparu copïau caled o gynigion neu orchmynion ar gais pan nad yw fersiwn electronig yn briodol.

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylai'r Comisiwn allu darparu cynigion neu orchmynion drafft yn electronig yn unig?

38. Cynigir hefyd ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn, neu'r prif gyngor, ddisgrifio yn eu cynigion y camau a gymerwyd i ymgynghori, a sut y gwnaethant ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law.

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno y dylai'r Comisiwn, neu'r prif gyngor, ddisgrifio yn eu cynigion y camau a gymerwyd ganddynt i ymgynghori, a sut y gwnaethant ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law?

39. Cynigir hefyd y dylid gosod dyletswydd ar sefydliad sydd wedi cynnal adolygiad o unrhyw fath a arweiniodd at newid ardaloedd awdurdodau lleol i roi gwybod i'r Arolwg Ordnans, ac unrhyw bersonau neu sefydliadau eraill a allai gael eu rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth o dan y Bil, unwaith y bo'r newidiadau wedi'u gwneud.

Cwestiwn 21: A ddylid ei gwneud yn ddyletswydd ar sefydliad sydd wedi cynnal adolygiad o unrhyw fath a arweiniodd at newid ardaloedd awdurdodau lleol roi gwybod i'r Arolwg Ordnans, ac unrhyw bersonau neu sefydliadau eraill y gellid eu rhagnodi, unwaith y bo'r newidiadau wedi eu gwneud?

40. Bydd y Comisiwn a'r prif gynghorau yn cadw'r pŵer i gynnal ymchwiliadau lleol fel rhan o adolygiad, gan gynnwys y pŵer cyfredol sydd yn adran 65 o Ddeddf 1972 i benodi comisiynydd cynorthwyol i gynnal unrhyw ymchwiliad o'r fath.

41. Bydd Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer sydd yn adran 67 o Ddeddf 1972 i wneud rheoliadau i ymdrin ag eiddo neu staff awdurdod lleol y gallai'r adolygiad effeithio arnynt.

42. Ni ddefnyddiwyd erioed bŵer Gweinidogion Cymru yn adran 60(6) o Ddeddf 1972 i ragnodi'r weithdrefn ar gyfer adolygiadau, ac felly cynigir dileu'r pŵer hwn.

Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r pŵer rheoleiddio sydd yn adran 60(6) o Ddeddf 1972 i ragnodi'r weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau?

Cyrff cyhoeddus eraill

43. Cynigir bod Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i enwi cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru (ee awdurdodau tân ac achub, byrddau iechyd lleol), y mae eu strwythur yn cynnwys cynghorwyr etholedig, y bydd eu haelodaeth yn agored i adolygiad gan y Comisiwn. Er bod hynny'n wahanol o ran natur i swyddogaethau'r Comisiwn fel y maent ar hyn o bryd, gallai fod o fantais i gael corff annibynnol sy'n gallu adolygu a gwneud cynigion ynglŷn â chyfansoddiad y cyrff cyhoeddus hynny sydd â chynghorwyr arnynt.

Cwestiwn 23: A ddylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud i gyrff cyhoeddus eraill y mae eu haelodau'n cynnwys cynghorwyr etholedig (ee awdurdodau tân ac achub, byrddau iechyd lleol) fod yn agored i adolygiad gan y Comisiwn?

Rhan 2 – Diwygiadau i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Y Cefndir

44. Roedd Mesur 2011 yn cyflwyno diwygiadau gyda'r nod o:

- gryfhau democratiaeth leol;
- gwneud i wasanaethu fel aelod etholedig o lywodraeth leol fod yn fwy deniadol;
- diwygio'r trefniadau llywodraethu a chraffu mewn awdurdodau lleol;
- gwneud newidiadau i drefniadaeth a phwerau cymunedau a chynghorau cymuned;
- cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr;
- galluogi cydweithredu rhwng cynghorau, ac o bosibl, eu huno.

45. Manteisir ar gyfle yn y Bil i ystyried rhai newidiadau i Fesur 2011. Bwriad y diwygiadau hyn yw gwella'r darpariaethau perthnasol, ac nid ydynt yn newidiadau sylweddol mewn polisi. Cynigwyd nifer o'r diwygiadau hyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ('y Panel') a sefydlwyd i wneud penderfyniadau ynglŷn â chydabyddiaeth ariannol cynghorwyr yng Nghymru, a hynny yn dilyn eu profiad o lunio eu hadroddiad blynyddol cyntaf³ dan ddarpariaethau Mesur 2011.

Pwerau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

46. Mae adran 142 o Fesur 2011 yn darparu mai'r Panel sy'n penderfynu pa swyddi neu ddyletswyddau, mewn perthynas â'r aelodau, y mae'n bosibl neu'n rhaid rhoi tâl amdanynt, ynghyd â gosod y swm neu'r uchafswm y mae'n bosibl neu'n rhaid i awdurdod lleol ei dalu i'w aelodau.

47. Wrth benderfynu pa swyddi neu ddyletswyddau a allai dderbyn math penodol o dâl, rhaid i'r Panel fynegi'r nifer fel cyfran o bob awdurdod, sef gorchwyl sy'n gallu bod yn feichus ac ymddangos yn ffuantus. Felly, cynigir newid adran 142 i ddarparu'r opsiwn o ragnodi terfyn nifer.

Cwestiwn 24: A ddylai'r Panel fod yn gallu rhagnodi terfyn nifer ar y swyddi a'r dyletswyddau a allai dderbyn taliad penodol heb orfod ei nodi fel cyfran o'r awdurdod?

48. Mae adran 144 o Fesur 2011 yn rhestru'r "awdurdodau perthnasol" y mae gan y Panel y pŵer i wneud penderfyniadau amdanynt ynglŷn â thaliadau i aelodau. Ar hyn o bryd, mae'r rheini'n cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Fe allai cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sy'n talu eu haelodau – ac sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol – fod yn rhai y byddai'n well gan y Gweinidogion fod penderfynu ynglŷn â thaliadau yn cael ei ychwanegu i gylch gwaith

³ Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Rhagfyr 2011

y Panel. Cynigir mai'r Panel fydd yn cael y cyfrifoldeb am benderfynu ynglŷn â thaliadau i aelodau cyrff cyhoeddus eraill, a hynny fel y rhagnoda Gweinidogion Cymru.

Cwestiwn 25: A ddylai Gweinidogion Cymru allu ychwanegu cyrff cyhoeddus eraill i gylch gwaith y Panel?

49. Mae adrannau 146 a 147 o Fesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod penderfyniadau'r Panel, fel y maent mewn adroddiadau blynyddol neu atodol, yn gorfod dod i rym yn ddim hwyrach na thri mis wedi cyhoeddi'r adroddiad perthnasol, ac ni chaniateir ôl-ddyddio penderfyniadau'r Panel. Mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau sydd mewn adroddiadau atodol yn ymwneud ag awdurdodau unigol, mae hyn yn ddianghenraid o gaeth. Cynigir bod y Panel yn cael y pŵer i ddewis pa ddyddiad y daw eu penderfyniadau i rym, a'u bod yn gallu ôl-ddyddio unrhyw benderfyniad am gyfnod o hyd at dri mis cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

Cwestiwn 26: A ddylai'r Panel gael y disgresiwn i ddewis pa ddyddiad y daw eu penderfyniadau i rym, gyda'r opsiwn ychwanegol o ôl-ddyddio unrhyw benderfyniad am gyfnod o hyd at dri mis cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi?

50. Mae adran 147 o Fesur 2011 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol y Panel gael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr ymhob blwyddyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddaw'r penderfyniadau sydd yn yr adroddiad i rym tan y mis Mai canlynol pan gynhelir cyfarfodydd blynyddol y cyngorau, ac mae hynny'n hwy na'r amser sydd ei angen ar awdurdodau lleol i weithredu unrhyw newidiadau. At hynny, mae'r amser sydd ei angen ar gyfer drafftio a chyfieithu adroddiadau drafft, ac ymgynghori yn eu cylch, yn golygu bod angen i'r Panel gychwyn gweithio ar yr adroddiad blynyddol canlynol cyn i benderfyniadau adroddiad blaenorol yr awdurdodau lleol ddod i rym. Mae hyn yn rhwystro'r Panel rhag gweld effaith eu penderfyniadau blaenorol cyn cychwyn ar yr adroddiad nesaf. Felly, cynigir bod dyddiad cyhoeddi'r adroddiad blynyddol yn cael ei newid i 28 Chwefror ymhob blwyddyn.

Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno â newid dyddiad cyhoeddi adroddiad blynyddol y Panel i 28 Chwefror ymhob blwyddyn yn hytrach na 31 Rhagfyr?

51. Mae adran 148 o Fesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod wyth wythnos o gyfnod ymgynghori ar gyfer pob adroddiad blynyddol ac atodol cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Cyflwynwyd y gofyniad hwn i gydbwyso pwerau cynyddol y Panel i ragnodi lefelau taliadau. Yn achos adroddiadau atodol, mae hyn yn golygu bod angen i adroddiadau a gyhoeddir i ymateb i gais unigol gan un awdurdod lleol fynd trwy'r broses hirfaith hon. Felly, yn achos adroddiadau atodol, cynigir lleihau'r cyfnod ymgynghori i gyfnod sydd rhwng pedair ac wyth wythnos.

Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno â lleihau'r cyfnod ymgynghori ar gyfer adroddiadau atodol i gyfnod sydd rhwng pedair ac wyth wythnos?

52. Mae adran 151 o Fesur 2011 yn galluogi'r Panel i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â thaliadau a dderbynnir gan

gynghorwyr unigol, sydd o fewn cylch gwaith y Panel. Yn adroddiad blynyddol 2011, mae'r Panel wedi dangos yn gryf ei fod yn teimlo ei bod er lles y cyhoedd i gyhoeddi pob incwm a dderbynnir gan gynghorwyr am ddyletswyddau cyhoeddus. Felly, cynigir bod y Panel yn cael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi pob gwybodaeth am y gydnabyddiaeth ariannol y mae cynghorwyr unigol yn ei derbyn mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau cyhoeddus.

Cwestiwn 29: A ddylai'r Panel gael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am bob cydnabyddiaeth ariannol a dderbyniodd cynghorwyr unigol mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau cyhoeddus?

Pwyllgorau Ardal Awdurdodau Lleol

53. Roedd adran 55 o Fesur 2011 yn cyflwyno darpariaethau newydd ynglŷn â'r ardaloedd a ganiateir ac aelodaeth pwyllgorau ardal a sefydlir ar gyfer meysydd polisi y teimla'r awdurdodau lleol y byddai'n fwy addas iddynt gael eu trin gan aelodau o ardal benodol o'r sir, yn hytrach na chynrychiolwyr yr holl sir. Mae adran 55 yn darparu bod gan bob cynghorydd a etholir o fewn yr ardal berthnasol hawl i fod yn aelod o'r pwyllgor.

54. Roedd yr adran yn diwygio adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n cyfyngu ei berthnasedd i bwyllgorau ardal sy'n gweithredu swyddogaethau gweithrediaeth yr awdurdod. Daeth yn eglur y byddai croeso i ddarpariaeth debyg ar gyfer pwyllgorau ardaloedd eraill. Cynigir bod y ddarpariaeth yn cael ei hymestyn i bwyllgorau ardal sy'n gyfrifol am weithredu swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithrediaeth, ond sy'n agored i reolau cydbwysedd gwleidyddol, megis cynllunio.

Cwestiwn 30: A ydych yn cytuno y dylai pwyllgorau ardal sy'n gyfrifol am swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithrediaeth gynnwys pob cynghorydd a etholwyd ar gyfer yr ardal honno ac sy'n dymuno bod yn aelodau?

Pwyllgorau Archwilio a Phwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd Awdurdodau Lleol

55. Roedd adran 82 o Fesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor sefydlu pwyllgor archwilio â swyddogaethau a nodir yn y Mesur. Yr awdurdod fydd yn penderfynu ar aelodaeth y pwyllgor, a rhaid iddo sicrhau bod o leiaf ddwy ran o dair o aelodau'r pwyllgor yn gynghorwyr, a bod o leiaf un aelod yn aelod lleyg. Hefyd, gall yr awdurdod ddewis bod un o'i swyddogion gweithredol (ond nid ei arweinydd) ar y pwyllgor.

56. Mae'r canllawiau sy'n ategu Mesur 2011 yn awgrymu y dylai'r awdurdod sicrhau bod aelodaeth pwyllgor archwilio'r awdurdod o ran y cynghorwyr a benodir iddo yn adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol sydd o fewn yr awdurdod. Cynigir bod y Bil yn diwygio Mesur 2011 fel bod hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Cwestiwn 31: A ddylai fod yn ofyniad cyfreithiol i aelodaeth pwyllgorau archwilio fod yn gytbwys yn wleidyddol o ran y cynghorwyr sy'n aelodau ohono?

57. Cynigir hefyd y dylai'r pwyllgorau archwilio a'r pwyllgorau gwasanaethau democrataidd, a sefydlwyd dan Fesur 2011 i ddarparu cymorth a chyngor i'r cynghorwyr nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth, ddod o dan y rheolau arferol sy'n berthnasol i bwyllgorau eraill y cyngor ynglŷn â mynediad at wybodaeth, a bod cyfarfodydd y pwyllgorau hyn yn agored i'r cyhoedd.

Cwestiwn 32: A ddylai'r pwyllgorau archwilio a'r pwyllgorau newydd ar gyfer gwasanaethau democrataidd ddod o dan y rheolau arferol ynglŷn â mynediad at wybodaeth?

Rhan 3 – Mynediad at Wybodaeth: Cynghorau Tref a Chymuned

58. Mae'r cyhoedd yn mynd ati'n rheolaidd i ddefnyddio'r we, yr e-bost a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i gael gwybodaeth am eu hardal leol, gweld pa wasanaethau sydd ar gael a chysylltu â chyrrff cyhoeddus. Erbyn hyn, mae'n fater o drefn i gyrrff cyhoeddus mwy o faint, megis cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, gyhoeddi gwybodaeth yn electronig am eu haelodau, eu strwythur a'u swyddogaethau.

59. Yn 2010, fe wnaeth arolwg o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru⁴ ganfod bod gwefan gan oddeutu hanner y cynghorau tref a chymuned, sef cynnydd mawr er 2002 pan oedd hynny'n llai nag un ymhob pump. Fodd bynnag, mae'n dal yn golygu bod cymunedau mewn sawl ardal yn methu cael gwybodaeth am eu cyngor trwy ddulliau cyfathrebu cyfoes.

60. Sefydliadau llai o ran natur yw cynghorau tref a chymuned. Fodd bynnag, nid yw bellach yn briodol mai dim ond ar ffurf copi caled ar hysbysfyrdau mewn ambell fan yn eu hardaloedd y mae gwybodaeth am eu trafodion ar gael. Er mwyn bod yn berthnasol i fywydau eu hetholwyr, mae'n hanfodol erbyn hyn eu bod yn cyhoeddi gwybodaeth am eu sefydliad ar y we, a bod modd cysylltu â hwy drwy'r e-bost.

61. Felly, cynigir yn y Bil y dylai pob cyngor tref a chymuned, erbyn eu cyfarfod blynyddol yn 2014, ddarparu eu manylion cyswllt a manylion am eu haelodau, a chofnodion eu trafodion, ar y we. Hefyd, dylai fod modd cysylltu â'r clerc, o leiaf, drwy'r e-bost. Gellid gwneud hyn trwy sefydlu eu gwefan eu hunain neu trwy gydweithio â chynghorau cyfagos, eu prif gyngor neu sefydliadau aelodaeth megis Un Llais Cymru.

Cwestiwn 33: Beth yw eich barn am y gofyniad i gynghorau tref a chymuned sicrhau bod eu manylion cyswllt a manylion am eu haelodau, ynghyd â chofnodion eu trafodion, ar gael ar y we?

Cwestiwn 34: A allwch chi awgrymu unrhyw ddulliau cyfathrebu eraill y dylid eu hystyried er mwyn gwella'r ffordd y gall unigolion gael mynediad at wybodaeth am eu cynghorau tref a chymuned?

⁴ Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref 2010 (Rhif Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru: 07/2011)

Materion Eraill

Materion Etholiadol

62. Bydd ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses etholiadol yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru, a'i bod yn darparu gwerth am arian, yn parhau. Bydd hefyd yn cydweithio â'r pleidiau gwleidyddol, y Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn Etholiadol, trwy'r Grŵp Cynllunio Etholiadau, i sicrhau dull unffurf o weithredu ledled Cymru ar gyfer etholiadau nesaf y Cynulliad, yn cynnwys mater amseru'r cyfrif.

63. Mae'r angen i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon o arian cyhoeddus hefyd yn berthnasol i gostau cynnal etholiadau. Er ein bod yn cydnabod yr angen i ddarparu digon o arian fel y gellir cynnal etholiadau llwyddiannus, mae'n hanfodol hefyd ein bod yn dileu unrhyw arlliw o dalu ddwywaith am staff etholiadol. Cred Llywodraeth Cymru na ddylai swyddog llywodraeth leol allu derbyn taliad o dan delerau gorchymyn ffioedd a thaliadau Swyddogion Canlyniadau os yw hefyd yn derbyn cydnabyddiaeth gan ei awdurdod lleol ar gyfer yr un cyfnod. Cynigir bod y trefniadau ariannu ar gyfer etholiadau nesaf y Cynulliad yn datrys y mater hwn. Bydd swyddogion llywodraeth leol yn parhau i dderbyn cydnabyddiaeth ar gyfer gwaith a wnânt y tu allan i'w horiau gwaith arferol, yn unol â thelerau gorchymyn ffioedd a thaliadau Swyddogion Canlyniadau.

Cwestiwn 35: A ydych yn cytuno na ddylai swyddog llywodraeth leol dderbyn taliad yn unol â thelerau gorchymyn ffioedd a thaliadau Swyddogion Canlyniadau os yw hefyd yn derbyn cydnabyddiaeth oddi wrth ei awdurdod lleol ar gyfer yr un cyfnod?

64. Mae bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno proses gofrestru etholiadol unigol⁵ o 2014 yn achosi cryn bryder, gan y gall olygu y bydd llai o bobl ar y gofrestr etholiadol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu'n agos â'r Comisiwn Etholiadol a swyddogion cofrestru etholiadol er mwyn sicrhau bod hyn yn llai tebygol o ddigwydd. Bwriada ystyried hefyd a oes modd sefydlu mecanweithiau ariannu i wobrwyo ymdrechion i wella lefelau cofrestru.

Cwestiwn 36: Beth yw eich barn am y posibilrwydd o ddefnyddio mecanweithiau ariannu i wobrwyo ymdrechion i wella lefelau cofrestru?

⁵ Mae proses gofrestru etholiadol unigol yn golygu bod rhaid i bob unigolyn gwblhau ei gais ei hun er mwyn cael ei gynnwys ar y gofrestr etholiadol. Bydd hyn yn cymryd lle'r arfer o gofrestru fesul aelwyd, sy'n golygu bod rhaid i'r "penteulu" lenwi'r cais ar ran pawb sy'n byw ar yr aelwyd. Caiff ei gyflwyno o 2014 o dan gynigion a gynhwyswyd mewn Papur Gwyn gan Lywodraeth y DU yn 2011.

65. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymdrin â chofrestru ar gyfer etholiadau na'r ffordd y cynhelir etholiadau lleol nac etholiadau'r Cynulliad, felly ni ellir ymdrin â'r materion hyn yn y Bil. Mae Comisiwn Silk yn adolygu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, a bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Comisiwn maes o law. Yn y Dystiolaeth honno gallai gynnig bod y pwerau perthnasol yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad.

Cwestiwn 37: A ydych yn credu y dylid rhoi i'r Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol yn ymwneud â chofrestru ar gyfer etholiadau a chynnal etholiadau lleol ac etholiadau'r Cynulliad?

Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol

Cefndir

66. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ('Deddf 2000') y fframwaith moesegol cyfredol er mwyn annog aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr i ddilyn safonau cyson o ran ymddygiad. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r broses ar gyfer honni y gallai aelodau llywodraeth leol fod wedi torri cod ymddygiad yr aelodau. Mae'r fframwaith yng Nghymru yn cynnwys, yn y bôn:

- cyfres o ddeg egwyddor gyffredinol o ran ymddygiad (sy'n deillio o'r '*Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus*⁶');
- cod ymddygiad enghreifftiol statudol;
- bod pwyllgorau safonau lleol yn cynghori aelodau ac awdurdodau ynghylch safonau ymddygiad;
- bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") neu swyddogion monitro'r awdurdodau lleol yn ymchwilio i honiadau o gamymddwyn;
- bod pwyllgorau safonau lleol neu Banel Dyfarnu, mewn achosion mwy difrifol fel arfer, yn dyfarnu ar ymchwiliadau o'r fath.

67. Nid yw'r fframwaith ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau Cymru wedi newid llawer ers iddo gael ei gyflwyno, ond gwelwyd amryw o newidiadau sylfaenol i'r fframwaith fel y mae'n berthnasol i awdurdodau yn Lloegr ac i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru.

68. Cyflwynwyd dull mwy lleol i ddechrau a olygai bod pwyllgorau safonau yn derbyn ac yn asesu honiadau o dorri'r cod cyn i swyddog monitro'r awdurdod (fel rheol) ymchwilio i achosion priodol. Roedd modd cyfeirio achosion hefyd at sylw Bwrdd Safonau Lloegr, fel yr oedd, fel y gallai ymchwilio iddynt, a/neu at y tribiwnlys haen gyntaf (Safonau Llywodraeth Leol yn Lloegr) fel y gallai ddyfarnu yn eu cylch.

69. Yn fwy diweddar, mae Deddf Lleoliaeth 2011 wedi diddymu'r fframwaith statudol ar gyfer awdurdodau yn Lloegr ac awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Yn lle hynny, bydd awdurdodau yn llunio eu codau ymddygiad eu hunain (yn seiliedig ar '*Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus*') a bydd yn drosedd i aelodau beidio â datgelu neu gam-gyfleu buddiannau ariannol, a hynny'n fwriadol. Ni fydd yn ofynnol i awdurdodau gael pwyllgorau safonau, ond bydd angen iddynt gynnwys o leiaf un person annibynnol wrth benderfynu a dorrwyd y cod ymddygiad ai peidio.

70. Mae Llywodraeth Cymru yn dal o'r farn fod y fframwaith statudol cyfredol yng Nghymru, a seiliwyd ar set gyffredin o egwyddorion arweiniol a chod ymddygiad enghreifftiol statudol, yn rhoi cydbwysedd priodol rhwng cyfarwyddo aelodau ynghylch safonau ymddygiad a rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd yr ymdrinnir yn gyson ac yn briodol â chamymddygiad. Wedi dweud hynny, cred Llywodraeth Cymru

⁶ Standards of Conduct in Local Government in England, Scotland and Wales – Third Report of the Committee on Standards in Public Life (Gorffennaf 1997)

fod lle i ddatrys mân gwynion yn fwy lleol, heb droi ar unwaith at yr Ombwdsmon am ymchwiliad llawn, a allai fod yn gostus.

Ymdrin yn Lleol â Honiadau o Gamymddwyn

71. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r trafodaethau sydd eisoes wedi digwydd rhwng cynrychiolwyr llywodraeth leol, yr Ombwdsmon ac eraill ar ddatblygu dull cyffredin, cenedlaethol o sefydlu protocolau a phrosesau lleol anffurfiol ar gyfer delio â chwynion gan un aelod am aelod arall, a chan swyddog am aelod. Hoffai Llywodraeth Cymru weld pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub yn rhoi'r cynigion hyn ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn etholiadau lleol 2012.

72. Cred Llywodraeth Cymru y dylai protocolau a phrosesau lleol ymdrin â mân gwynion a gwneud iawn amdanynt yn gyflym. Dylid symleiddio prosesau o'r fath ac ni ddylid caniatáu iddynt ddod yn fodd o alluogi aelod i lesteirio neu ymestyn materion, gan arwain yn y pen draw at gyfeirio'r achos at yr Ombwdsmon.

73. Er nad yw'r trafodaethau a gynhaliwyd hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar anghydfodau rhwng aelodau o gynghorau tref a chymuned, hoffai Llywodraeth Cymru weld y dull hwn yn cael ei ymestyn i gynghorau o'r fath, yn sgil profiad.

74. Er mwyn hwyluso'r defnydd o brotocolau a phrosesau lleol wrth ymdrin â chwynion, bydd Llywodraeth Cymru yn dileu'r gofyniad pendant bod aelodau yn hysbysu'r Ombwdsmon am achosion posibl o dorri'r cod, o'r cod ymddygiad enghreifftiol.

Cwestiwn 38: Beth yw'r rhwystrau ymarferol rhag ymestyn y broses ddatrys leol i gynghorau tref a chymuned ac ym mha ffordd y gellid eu goresgyn?

Cwestiwn 39: I ba raddau y mae'n angenrheidiol neu'n ddymunol diwygio'r fframwaith statudol presennol neu'r cod ymddygiad enghreifftiol, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatrys cwynion yn lleol?

Cwestiwn 40: A ddylid addasu'r fframwaith moesegol yng Nghymru yn fwy sylfaenol (ee cyflwyno proses leol o asesu ac ymchwilio i bob achos honedig o dorri'r cod ymddygiad) ac os felly, sut y dylid ei addasu?

Ymchwilio i Fân Honiadau yn Lleol

75. Ar hyn o bryd mae'r Ombwdsmon yn cynnal prawf gwrthrychol wrth benderfynu a ddylai ymchwilio i achos honedig o dorri'r cod ymddygiad. Mae dau gam i'r prawf, sef:

- bod tystiolaeth prima facie o dorri'r cod;
- bod yr achos o dorri'r cod yn un sy'n debygol o arwain at sancsiynau gan bwyllgor safonau neu driwlynlys Panel Dyfarnu, ym marn yr Ombwdsmon ac ar sail ei brofiad blaenorol.

76. Mae gan yr Ombwdsmon bwerau i gyfeirio achosion at sylw swyddogion monitro, fel y gallant ymchwilio iddynt ac fel y gall y pwyllgor safonau lleol benderfynu yn eu cylch wedi hynny. Mae swyddogion monitro wedi gwrthwynebu hyn yn y gorffennol, fodd bynnag. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod trefniadau galw i mewn wedi'u cyflwyno, sy'n golygu y caiff swyddogion monitro a phwyllgorau safonau eu hysbysu o honiadau nad ydynt yn llwyr fodloni meini prawf ymchwilio'r Ombwdsmon. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle iddynt ofyn am i'r achos arbennig hwnnw gael ei gyfeirio'n ffurfiol atynt ar gyfer ymchwiliad lleol.

Cwestiwn 41: A yw'r trefniadau "galw i mewn" yn ddigonol, neu a ddylid cyfeirio achosion nad ydynt yn llwyr fodloni meini prawf presennol yr Ombwdsmon er mwyn penderfynu yn eu cylch yn lleol, a hynny fel mater o drefn?

Dulliau Safonol o ymdrin ag Indemniadau – y Cod Ymddygiad

77. Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r pryderon a leisiwyd ynglŷn â graddau'r indemniadau y mae rhai awdurdodau wedi'u cynnig i aelodau sy'n amddiffyn eu hunain rhag honiadau eu bod wedi torri'r cod ymddygiad.

78. Mae'n amlwg bod gwranddo ar achosion camymddwyn, boed gerbron pwyllgorau safonau neu driwlysoedd y Panel Dyfarnu, wedi dod yn fwyfwy dadleuol a chostus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn wahanol i achosion llys, ni fwriadwyd i'r rhain fod yn brosesau gwrthwynebol; eu nod yw dod i ddeall y ffeithiau perthnasol a dyfarnu ar sail hynny. Ond mae'r ffaith bod mwy a mwy o aelodau yn dewis cael cyfreithwyr neu gwrsler i'w cynrychioli yn golygu bod perygl iddynt ddatblygu i fod yn brosesau gwrthwynebol.

79. Derbynnir bod rhaid i aelodau fod mewn sefyllfa i'w hamddiffyn eu hunain rhag honiadau o gamymddwyn, ond ni ddylai fod yn briodol nac yn angenrheidiol iddynt gael cynrychiolydd cyfreithiol sy'n cael ei dalu trwy indemniad bob tro. Mewn rhai achosion, mae'r indemniad neu'r yswiriant a ddarparwyd wedi arwain at wariant anghymesur. Er bod rhaid i'r aelod dan sylw ad-dalu'r indemniad pan roddir cosb, ni ellir adennill y costau ychwanegol sy'n disgyn ar ysgwyddau asiantaethau statudol eraill o ganlyniad i'r achos. Trwy gynnig indemniad di-ben-draw, mae rhai awdurdodau lleol wedi llofnodi siec wag, i bob pwrpas, i dalu costau cyfreithiol y rheini yr honnir iddynt gamymddwyn. Mae'n anodd gweld sut y mae hynny'n ddefnydd buddiol o arian cyhoeddus.

80. Gall awdurdodau lleol eisoes ddewis rhoi terfyn ar yr indemniadau a gynigir ganddynt. Felly mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r trafodaethau a gynhaliwyd ar gyflwyno terfyn gwirfoddol o £20,000 ar indemniadau a ddarperir i'r diben hwn, a therfyn cymesur ar gostau'r Ombwdsmon mewn gwrandawiadau. Ni fyddai'r terfyn yn berthnasol i indemniadau a ddarperir ar gyfer achosion eraill, nad ydynt yn gysylltiedig â thorri'r cod ymddygiad. Unwaith eto, hoffai Llywodraeth Cymru weld trefniadau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn etholiadau lleol 2012.

Cwestiwn 42: A yw'r terfyn gwirfoddol ar indemniadau a ddarperir i'r diben hwn yn briodol ac yn ddigonol?

Cwestiwn 43: A ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno terfyn statudol ar indemniadau trwy is-ddeddfwriaeth?

Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol

81. Ym mis Rhagfyr 2011 cytunodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 'Gompact ar gyfer Newid' er mwyn diwygio gwasanaethau cyhoeddus ar sail patrwm cydweithredu daearyddol cyffredin sy'n seiliedig ar 6 ardal gydweithredol.

82. Cred Llywodraeth Cymru y byddai'n fuddiol i awdurdodau gydweithredu er mwyn sefydlu pwyllgorau safonau cyfun yn seiliedig ar 'Batrwm Cydweithredu'r Gwasanaethau Cyhoeddus' Llywodraeth Cymru. Dyma rai o'r manteision:

- helpu i oresgyn y problemau y mae rhai ardaloedd yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i bobl annibynnol addas i fod yn aelodau o bwyllgorau safonau;
- gwneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau a darparu hyblygrwydd i ddelio ag achosion;
- osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau a chynyddu ffydd y cyhoedd yn y broses o ddelio â chwynion trwy greu pellter rhwng pwyllgorau ac achwynwyr / y rhai y cwynir yn eu herbyn;
- hwyluso ymatebion cyson i gwynion ledled Cymru, yn enwedig os dilynir prosesau datrys lleol;
- hwyluso'r broses o ledaenu arferion da a hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad.

83. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ac os oes angen, bydd yn deddfu i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau cyfreithiol sy'n atal cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub rhag cydweithredu i sefydlu pwyllgorau safonau ar y cyd.

Cwestiwn 44: Beth yw'r rhwystrau ymddangosiadol rhag sefydlu pwyllgorau safonau rhanbarthol, os oes rhai?

Trefniadau Craffu Llywodraeth Leol

84. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailgyflwyno'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu ('y Gronfa') a fu ar waith rhwng 2009 a 2011. Awgrymodd gwerthusiad diweddar gan Brifysgol Caerdydd⁷ fod y gronfa wedi llwyddo i ysgogi datblygiadau arloesol ym maes craffu, yn enwedig gan ei bod yn annog awdurdodau lleol i arbrofi trwy gynnal ymarferion craffu ar y cyd a darparu profiadau datblygu i'w haelodau.

85. Bwriad y Gronfa fydd ei gwneud yn haws i awdurdodau sydd heb fawr o adnoddau craffu i gymryd rhan mewn gweithgareddau craffu trylwyr. Ei nod pennaf fydd eu galluogi i graffu'n fwy effeithiol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, trwy bartneriaethau rhanbarthol. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod gwaith craffu yn gallu cyflawni'r swyddogaeth hunanasesu yn well, fel sy'n rhaid er mwyn iddo leihau'r baich a chysylltu â'r gwaith rheoleiddio ac arolygu sy'n wynebu llywodraeth leol fel arall.

86. Caiff y Gronfa ei hail-lansio fel rhan o fenter i godi safonau cyffredinol a graddau'r gwaith craffu sy'n digwydd ledled Cymru, trwy raglen a gynlluniwyd i hyrwyddo a chyfnewid arfer gorau, yn cynnwys defnyddio'r cynllun Bancio Amser Craffu⁸ (sy'n cael ei redeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr). Wrth wraidd hyn, bydd angen llwyddo i gyflwyno gwaith craffu yn y sector cyhoeddus, trwy ddarpariaethau Mesur 2011 ar bersonau dynodedig, cydbwyllgorau craffu ar draws ffiniau sirol a blaengynllunio, a darparu canllawiau manwl a chynhwysfawr. Bydd y fenter sydd eisoes ar y gweill i wella gwaith craffu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol⁹ yn parhau fel rhan o'r fenter hon.

⁷ Prifysgol Caerdydd - Evaluation of the Scrutiny Development Fund (SDF) in Wales; assessing the impact of the SDF on developing effective scrutiny in local government in Wales. Caiff ei gyhoeddi yn ystod 2012.

⁸ www.scrutinytimebank.co.uk

⁹ Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cynnwys arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol a'r trydydd sector ac maent wrth wraidd gweithio amlasiantaethol lleol. Maent yn cydweithio i nodi eu blaenoriaethau strategol ac i sicrhau bod ganddynt strwythurau partneriaeth lleol sy'n addas i'r diben, er mwyn darparu gwell canlyniadau i'r bobl yn eu hardaloedd.

Hyfforddi a Datblygu Cynghorwyr

87. Mae'n hollbwysig bod gan y cynghorwyr newydd sy'n cychwyn ar eu gwaith ar ôl etholiadau mis Mai, ynghyd â'r rheini sy'n llwyddo i gael eu hail-ethol, yr wybodaeth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i ymateb i'r heriau sylweddol sy'n wynebu llywodraeth leol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod cynghorwyr yn deall yr hyn sy'n digwydd, sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu neu eu had-drefnu, a'u rhan hwy yn y gwaith o ddatblygu polisiau a chraffu'n effeithiol ar wasanaethau.

88. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu gwell o lawer rhwng Llywodraeth Cymru a chynghorwyr mewn seminarau a gweithdai rhanbarthol a thrwy gylchlythyrau rheolaidd a dolenni sy'n arwain at wybodaeth berthnasol.

89. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn cefnogi ei rhaglen barhaus o ddatblygu aelodau ar lefel yr awdurdodau unigol, wrth iddynt hyrwyddo'r Freinlen Aelodau¹⁰.

¹⁰ Breinlen Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Fframwaith ar gyfer cynorthwyo aelodau etholedig o fewn llywodraeth leol yng Nghymru

Argymhellion Adolygiad Mathias (Saesneg yn unig)

- The Welsh Government should consider the approach it wishes to follow for future electoral reviews. If the Minister decides the priority is to keep electoral imbalances under control on a regular and systematic basis, the 1972 Act should be amended so that such reviews are undertaken on a rolling basis without regard to having all authorities reviewed in time for an electoral cycle.
- If however, the Minister sees value in a more comprehensive review approach on the current cyclical basis, it should set out and monitor the Commission's delivery on an agreed and resourced programme. The Minister should also consider directing the Commission to use its powers of interim review to deal with particular electoral imbalances.
- As a matter of policy, the Commission should consult fully on the approach it proposes to take on electoral reviews, as a starting point to the review programme. The consultation should include the steps it proposes to take towards assessment of council size, the balance between the different criteria, the need for any increase in multi-member divisions, and the responses it expects from key stakeholders.
- Subject to [paragraph] 4.7 [of the Mathias Review]¹¹, the Commission should consult on an appropriate methodology for assessing the number of councillors for each authority. It should include consideration of the approaches taken in Scotland and England. Whatever process is adopted, it should be clear and transparent to all stakeholders.
- The Welsh Government should abandon the requirement laid down in section 4(c) of the Directions to the Local Government Boundary Commission for Wales 2009 for a single councillor to elector ratio. It should be replaced by the process outlined in the previous recommendation for a transparent approach to assessing council size.
- The Commission should ensure there is a clear audit trail, based on minutes of decisions, legal advice and public consultation, for its approach to determining the balance of the criteria they propose to implement under Schedule 11 1A(5) of the 1972 Act. It should ensure that appropriate documentation exists to demonstrate both the way it dealt with the general criteria and how they were applied in each review.

¹¹ As a matter of policy, the Commission should consult fully on the approach it proposes to take on electoral reviews, as a starting point to the review programme. The consultation should include the steps it proposes to take towards assessment of council size, the balance between the different criteria, the need for any increase in multi-member divisions, and the responses it expects from key stakeholders. Paragraph 4.7 o Adolygiad Mathias.

- The Commission should adopt an appropriate methodology for assessing the desirability of multi-member divisions in each authority, as required in section 3(1) of the Ministerial Directions 2009.
- The Welsh Government should seek, as a priority, to amend the Local Government Act 1972 to remove paragraphs 5(c) and 5(d) of Schedule 11 relating to community councils. The Commission should be given power to ward community areas for the purpose of creating electoral divisions.
- The Welsh Government should consider removing the need for orders implementing community reviews to be made by Welsh Ministers. The Commission could be given an order-making power to implement community reviews, with a right of appeal to the Welsh Ministers.
- The Welsh Government should review the structure, personnel and budget of the Commission in the light of the increasing commitments faced by the secretariat.
- The Welsh Government should consider whether Ministerial Directions are a necessary addition to the requirements set out in an amended Act. While it would be sensible to retain the power to issue Directions to meet particular circumstances, it might in general be more practical, and potentially more flexible, for the Government and the Commission to conduct a public exchange of letters setting out the strategic direction of the review process.
- As a matter of priority, the Welsh Government should appoint two new Commissioners with direct experience at a senior level of running elections or other local government experience at a corporate management level. In addition, the Government should consider exercising the power under paragraph 3(1) of Schedule 8 of the 1972 Act to appoint people with expert knowledge to advise and assist the work of the Commission.
- The Commission should improve its assessment of the risks of not meeting the timetable set by the Government, and there should be a risk analysis on a review by review basis. The Commission should make regular assessments of the resources at its disposal to ensure they are sufficient to meet the timetable.
- The Commission should engage with all 22 local authorities to ensure as far as possible that each of them puts forward electoral schemes for their own areas as part of the evidence that informs the Commission's preparation of draft proposals.
- The Commission should review its communications strategy to ensure it engages more pro-actively with all stakeholders.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Ymateb i argymhellion Adolygiad Mathias o adolygiadau etholiadol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

DYDDIAD 25 Ionawr 2012

GAN Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ym mis Rhagfyr 2010 fe gyhoeddais benderfyniad i sefydlu adolygiad annibynnol o'r materion amserlennu ac ansawdd sy'n gysylltiedig â rhaglen adolygu etholiadol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac i nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod yr adolygiadau'n cael eu cynnal mewn da bryd ar gyfer etholiadau 2016. Ym mis Mawrth y llynedd fe ofynnais i Glyn Mathias gynnal yr adolygiad ac i lunio adroddiad ar fy nghyfer erbyn mis Mehefin.

Ar 22 Mehefin, ar ôl derbyn adroddiad yr adolygiad, fe wnes i ddatganiad i'r Cynulliad yn ymateb i'r casgliad cyffredinol nad oedd y Comisiwn yn 'addas at y diben', ac fe gyhoeddais gamau gweithredu priodol. Ymrwymais i wneud datganiad arall yn amlinellu'r camau nesaf.

Dyma argymhellion llawn yr adroddiad, ynghyd â'm hymateb i.

(Nodyn: Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cyfeirio at baragraffau yn adroddiad Mathias, a gyhoeddwyd yn Saesneg.)

ARGYMHELLIAD	YMATEB
Penderfyniadau Polisi – y trywydd i’w ddilyn o ran adolygiadau etholiadol yn y dyfodol	
The Welsh Government should consider the approach it wishes to follow for future electoral reviews. If the Minister decides the priority is to keep electoral imbalances under control on a regular and systematic basis, the 1972 Act should be amended so that such reviews are undertaken on a rolling basis without regard to having all authorities reviewed in time for an electoral cycle (4.14).	Byddwn yn ymdrin â’r mater hwn mewn Bil Cynulliad sydd ar yr amserlen ar gyfer sesiwn 2012/13 y Cynulliad.
If however, the Minister sees value in a more comprehensive review approach on the current cyclical basis, it should set out and monitor the Commission’s delivery on an agreed and resourced programme. The Minister should also consider directing the Commission to use its powers of interim review to deal with particular electoral imbalances (4.15).	Gan fy mod yn bwriadu ymdrin â’r broses adolygu yn y Bil (uchod), ni fydd angen gwneud hyn. Mae Cadeirydd Dros Dro y Comisiwn wedi cytuno i ddarparu amserlen ar gyfer yr adolygiadau sy’n weddill.
Adolygiadau Etholiadol Cyfredol	
The Welsh Government should abandon the requirement laid down in section 4(c) of the Directions to the Local Government Boundary Commission for Wales 2009 for a single councillor to elector ratio. It should be replaced by the process outlined in the previous recommendation for a transparent approach to assessing council size (4.9).	Bydd y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd yn 2009 yn cael eu tynnu yn ôl, a chyfarwyddiadau newydd yn cael eu cyhoeddi ar ôl ymgynghori â’r Comisiwn.
The Welsh Government should review the structure, personnel and budget of the Commission in the light of the increasing commitments faced by the secretariat (4.18).	Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio’n agos â’r Ysgrifennydd Dros Dro a’i staff i wella’r gweithdrefnau corfforaethol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu’r gweithdrefnau cyllidebu.

<p>As a matter of priority, the Welsh Government should appoint two new Commissioners with direct experience at a senior level of running elections or other local government experience at a corporate management level. In addition, the Government should consider exercising the power under paragraph 3(1) of Schedule 8 of the 1972 Act to appoint people with expert knowledge to advise and assist the work of the Commission (4.19).</p>	<p>Mae tri Chomisiynydd newydd wedi'u penodi i wasanaethu tan 31 Mawrth 2012 – ac erbyn hynny dylai proses benodi lawn fod wedi'i chynnal. Y Comisiynwyr yw Max Caller (Cadeirydd), Sandy Blair ac Owen Watkin. Mae gan y tri brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, gan gynnwys gwasanaethu ar lefel prif weithredwr.</p>
<p>Deddfwriaeth</p>	
<p>The Welsh Government should seek, as a priority, to amend the Local Government Act 1972 to remove paragraphs 1A(5)(c) and 1A(5)(d) of Schedule 11 relating to community councils. The Commission should be given power to ward community areas for the purpose of creating electoral divisions (4.12).</p>	<p>Bydd y Bil arfaethedig yn ymdrin â'r mater hwn. Fel rhan o'r gwaith, mae angen mynd i'r afael â'r broblem a ddaeth yn amlwg cyn i'r adolygiadau etholiadol ddechrau, sef nad oedd rhai cynghorau wedi bod yn adolygu eu hardaloedd cymunedol. Byddwn yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r cymunedau perthnasol fod wedi bod yn destun adolygiadau ardal diweddar cyn i'r adolygiad etholiadol o'r brif ardal gael ei gynnal.</p>
<p>The Welsh Government should consider removing the need for orders implementing community reviews to be made by Welsh Ministers. The Commission could be given an order-making power to implement community reviews, with a right of appeal to the Welsh Ministers (4.13).</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o rannu cyfrifoldeb â'r Comisiwn, ond bydd y Bil arfaethedig yn ymdrin â'r mater hwn.</p>
<p>The Welsh Government should consider whether Ministerial Directions are a necessary addition to the requirements set out in an amended Act. While it would be sensible to retain the power to issue Directions to meet particular circumstances, it might in general be more practical, and potentially more flexible, for the Government and the Commission to conduct a public exchange of letters setting out the</p>	<p>Bydd unrhyw newid deddfwriaethol i'r pŵer cyfarwyddo cyfredol yn cael ei ystyried wrth baratoi'r Bil arfaethedig. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Comisiwn yn cael mynegi barn cyn i unrhyw gyfarwyddiadau gael eu cyhoeddi, ac y ceir dealltwriaeth glir o fwriad y cyfarwyddiadau. Byddwn hefyd yn ystyried, pan fo hynny'n briodol, gyhoeddi cyfarwyddiadau gwahanol ar gyfer siroedd gwahanol.</p>

strategic direction of the review process (4.21).	
Y Comisiwn	
Penderfyniadau Polisi ynghylch Adolygiadau Etholiadol	
As a matter of policy, the Commission should consult fully on the approach it proposes to take on electoral reviews, as a starting point to the review programme. The consultation should include the steps it proposes to take towards assessment of council size, the balance between the different criteria, the need for any increase in multi-member divisions, and the responses it expects from key stakeholders (4.7).	Mater i'r Comisiwn ei ystyried, wedi i'r cyfarwyddiadau cyfredol gael eu tynnu yn ôl.
Subject to 4.7, the Commission should consult on an appropriate methodology for assessing the number of councillors for each authority. It should include consideration of the approaches taken in Scotland and England (see paragraphs 3.10 and 3.11). Whatever process is adopted, it should be clear and transparent to all stakeholders (4.8).	Mater i'r Comisiwn ei ystyried, wedi i'r cyfarwyddiadau cyfredol gael eu tynnu yn ôl.
The Commission should adopt an appropriate methodology for assessing the desirability of multi-member divisions in each authority, as required in section 3(1) of the Ministerial Directions 2009 (4.11).	Mater i'r Comisiwn ei ystyried, wedi i'r cyfarwyddiadau cyfredol gael eu tynnu yn ôl. Bydd y cyfarwyddiadau newydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adrannau etholiadol aml-aelod.
The Commission should engage with all 22 local authorities to ensure as far as possible that each of them puts forward electoral schemes for their own areas as part of the evidence that informs the Commission's preparation of draft proposals (4.17).	Cam gweithredu ar gyfer y Comisiwn a'r awdurdodau lleol.
Materion Gweithredol	
The Commission should ensure there is a clear audit trail, based on minutes of decisions, legal advice and public consultation, for its approach to determining the balance of the criteria they propose to implement under Schedule 11 1A(5) of the 1972 Act. It	Cam gweithredu i'r Comisiwn.

<p>should ensure that appropriate documentation exists to demonstrate both the way it dealt with the general criteria and how they were applied in each review (4.10).</p>	
<p>The Commission should improve its assessment of the risks of not meeting the timetable set by the Government, and there should be a risk analysis on a review by review basis. The Commission should make regular assessments of the resources at its disposal to ensure they are sufficient to meet the timetable (4.16).</p>	<p>Cytunir ar broses ac amserlen newydd gyda'r Comisiwn ar gyfer yr adolygiadau sy'n weddill.</p>
<p>The Commission should review its communications strategy to ensure it engages more pro-actively with all stakeholders (4.20).</p>	<p>Cam gweithredu i'r Comisiwn.</p>

Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad

- Prif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
- Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
- Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau'r Cynghorau Sir a'r Cynghorau Bwrdeistref Sirol
- Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
- Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau'r Awdurdodau Tân ac Achub
- Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Prif Weithredwyr Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru
- Prif Swyddogion Tân y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru
- Prif Weithredwyr Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru
- Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
- Prif Weithredwyr Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru
- Clercod Cynghorau Tref a Chymuned Cymru
- Cymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr
- Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol
- Gweinyddwyr Etholiadol Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
- Prif Weithredwr Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
- Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr
- Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban
- Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru
- Comisiynydd Ffiniau Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon
- Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Comisiynydd y Gymraeg
- Ysgrifennydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru
- Prif Weithredwr Un Llais Cymru
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Prif Arolygydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Aelodau'r Cynulliad
- Aelodau Seneddol
- Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
- Swyddfa'r Cabinet
- Swyddfa Cymru
- Glyn Mathias
- Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Swyddfa Cymru

- Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Rheolwr Cyfranogaeth Cymru
- Prif Weithredwr Plaid Cymru
- Cyfarwyddwr Plaid Geidwadol Cymru
- Ysgrifennydd Cyffredinol Plaid Lafur Cymru
- Prif Weithredwr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Ysgrifennydd Cyffredinol Plaid Werdd Cymru
- Ysgrifennydd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig Cymru
- Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres Undebau Llafur Cymru
- Llywydd Panel Dyfarnu Cymru
- Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol
- Y Byrddau Gwasanaethau Lleol

Hybu Democratiaeth Leol

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

A fydddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon i Lywodraeth Cymru erbyn **3 Awst 2012**.

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion neu ymholiadau yw:

LGDTMailbox@wales.gsi.gov.uk

Dylid anfon ymatebion drwy'r post i:

Y Tîm Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ.

Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau: 029 2082 3490

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylid newid enw'r Comisiwn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru?			
Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ymhelaethwch ar eich ateb			

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y dylid cynyddu cworwm y Comisiwn i dri, ac y byddai'n arferol penodi Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a dau aelod arall?			
Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ymhelaethwch ar eich ateb			

Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ynghylch penodi aelod wrth gefn?

--

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno bod y darpariaethau a amlinellir yn adran 7.3 o gynllun iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn briodol mewn perthynas â phenodi aelodau'r Comisiwn?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

--

Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ynghylch rhoi'r pŵer i'r Comisiwn benodi personau i gynnig cyngor arbenigol, ynghyd â'r pŵer i dalu unrhyw bersonau o'r fath?

--

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol (nifer a dosbarthiad y cynghorwyr) wrth argymhell newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

--

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno mai'r Comisiwn ddylai hysbysu'r Ysgrifennydd Cartref am unrhyw argymhellion sy'n effeithio ar ffiniau ardal yr heddlu?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

--

Cwestiwn 8: Unwaith y caiff ei hysbysu bod adolygiad etholiadol ar y gweill, a ddylai fod yn ofynnol i'r prif awdurdod sicrhau bod ei gymunedau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar mewn modd sy'n bodloni'r Comisiwn?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

--

Cwestiwn 9: Os na fydd prif awdurdod yn dilyn y canllawiau, a ddylai'r Comisiwn gael y grym i gynnal yr adolygiad a chodi tâl ar y prif gyngor am wneud hynny?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 10: Beth yw eich barn ynghylch rhoi'r grym i'r Comisiwn i roi canllawiau i'r prif gyngor ynghylch amseru a phroses adolygiadau cymunedau, ynghyd â'r egwyddorion y dylid eu dilyn?

Cwestiwn 11: A ddylai'r Comisiwn gael y pŵer i wneud gorchmynion ynghylch yr adolygiadau cymunedau y mae'r prif awdurdodau'n eu cynnal?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 12: Beth yw eich barn chi ynghylch y ffaith y byddai'r Comisiwn yn gweithredu cylch parhaus o adolygiadau etholiadol, gan ddechrau yn 2014, gydag amserlen ar gyfer cylch deng mlynedd o adolygiadau yn cael ei chynhyrchu?

Cwestiwn 13: Wrth bennu ffiniau a ddylai rhwymau cymunedol lleol fod yr un mor bwysig â chyrraedd y targed o ran y gymhareb o etholwyr i gynghorwyr?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 14: A ddylai'r Comisiwn allu cynnig adrannau etholiadol sydd o boptu i ffiniau cymunedau?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 15: A ddylai'r Comisiwn allu cynnig newidiadau i ffiniau cymunedau fel rhan o adolygiad etholiadol?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 16: A ddylai'r Comisiwn, fel rhan o'i ymgynghoriad cyn adolygiad etholiadol, nodi a chyhoeddi nifer y cynghorwyr y mae'n ei ystyried yn briodol ar gyfer pob brif gyngor?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 17: A ddylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn i gyfarwyddiadau'r Gweinidogion gael eu rhoi?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 18: A ddylai'r Comisiwn a'r prif awdurdodau gael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyngor yr ardal llywodraeth leol sydd dan adolygiad ddarparu gwybodaeth ar eu cyfer sy'n berthnasol i'r adolygiad?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylai'r Comisiwn allu darparu cynigion neu orchmynion drafft yn electronig yn unig?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno y dylai'r Comisiwn, neu'r prif gyngor, ddisgrifio yn eu cynigion y camau a gymerwyd ganddynt i ymgynghori, a sut y gwnaethant ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 21: A ddylid ei gwneud yn ddyletswydd ar sefydliad sydd wedi cynnal adolygiad o unrhyw fath a arweiniodd at newid ardaloedd awdurdodau lleol roi gwybod i'r Arolwg Ordans, ac unrhyw bersonau neu sefydliadau eraill y gellid eu rhagnodi, unwaith y bo'r newidiadau wedi eu gwneud?

Dylid

Na ddylid

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r pŵer rheoleiddio sydd yn adran 60(6) o Ddeddf 1972 i ragnodi'r weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 23: A ddylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud i gyrrff cyhoeddus eraill y mae eu haelodau'n cynnwys cynghorwyr etholedig (ee awdurdodau tân ac achub, byrddau iechyd lleol) fod yn agored i adolygiad gan y Comisiwn?

Dylent

Na ddylent

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 24: A ddylai'r Panel fod yn gallu rhagnodi terfyn nifer ar y swyddi a'r dyletswyddau a allai dderbyn taliad penodol heb orfod ei nodi fel cyfran o'r awdurdod?

Dylent

Na ddylent

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 25: A ddylai Gweinidogion Cymru allu ychwanegu cyrff cyhoeddus eraill i gylch gwaith y Panel?

Dylent

Na ddylent

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 26: A ddylai'r Panel gael y disgresiwn i ddewis pa ddyddiad y daw eu penderfyniadau i rym, gyda'r opsiwn ychwanegol o ôl-ddyddio unrhyw benderfyniad am gyfnod o hyd at dri mis cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno â newid dyddiad cyhoeddi adroddiad blynyddol y Panel i 28 Chwefror ymhob blwyddyn yn hytrach na 31 Rhagfyr?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno â lleihau'r cyfnod ymgynghori ar gyfer adroddiadau atodol i gyfnod sydd rhwng pedair ac wyth wythnos?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 29: A ddylai'r Panel gael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am bob cydnabyddiaeth ariannol a dderbyniodd cynghorwyr unigol mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau cyhoeddus?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 30: A ydych yn cytuno y dylai pwyllgorau ardal sy'n gyfrifol am swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithrediaeth gynnwys pob cynghorydd a etholwyd ar gyfer yr ardal honno ac sy'n dymuno bod yn aelodau?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 31: A ddylai fod yn ofyniad cyfreithiol i aelodaeth pwyllgorau archwilio fod yn gytbwys yn wleidyddol o ran y cynghorwyr sy'n aelodau ohono?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 32: A ddylai'r pwyllgorau archwilio a'r pwyllgorau newydd ar gyfer gwasanaethau democrataidd ddod o dan y rheolau arferol ynglŷn â mynediad at wybodaeth?

Dylent

Na ddylent

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 33: Beth yw eich barn am y gofyniad i gynghorau tref a chymuned sicrhau bod eu manylion cyswllt a manylion am eu haelodau, ynghyd â chofnodion eu trafodion, ar gael ar y we?

Cwestiwn 34: A allwch chi awgrymu unrhyw ddulliau cyfathrebu eraill y dylid eu hystyried er mwyn gwella'r ffordd y gall unigolion gael mynediad at wybodaeth am eu cynghorau tref a chymuned?

Cwestiwn 35: A ydych yn cytuno na ddylai swyddog llywodraeth leol dderbyn taliad yn unol â thelerau gorchymyn ffioedd a thaliadau Swyddogion Canlyniadau os yw hefyd yn derbyn cydnabyddiaeth oddi wrth ei awdurdod lleol ar gyfer yr un cyfnod?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 36: Beth yw eich barn am y posibilrwydd o ddefnyddio mecanweithiau ariannu i wobrwyo ymdrechion i wella lefelau cofrestru?

Cwestiwn 37: A ydych yn credu y dylid rhoi i'r Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol yn ymwneud â chofrestru ar gyfer etholiadau a chynnal etholiadau lleol ac etholiadau'r Cynulliad?

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 38: Beth yw'r rhwystrau ymarferol rhag ymestyn y broses ddatrys leol i gynghorau tref a chymuned ac ym mha ffordd y gellid eu goresgyn?

Cwestiwn 39: I ba raddau y mae'n angenrheidiol neu'n ddymunol diwygio'r fframwaith statudol presennol neu'r cod ymddygiad enghreifftiol, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatrys cwynion yn lleol?

Cwestiwn 40: A ddylid addasu'r fframwaith moesegol yng Nghymru yn fwy sylfaenol (ee cyflwyno proses leol o asesu ac ymchwilio i bob achos honedig o dorri'r cod ymddygiad) ac os felly, sut y dylid ei addasu?

Dylid

Na ddylid

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 41: A yw'r trefniadau "galw i mewn" yn ddigonol, neu a ddylid cyfeirio achosion nad ydynt yn llwyr fodloni meini prawf presennol yr Ombwdsmon er mwyn penderfynu yn eu cylch yn lleol, a hynny fel mater o drefn?

Ydynt

Nac ydynt

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 42: A yw'r terfyn gwirfoddol ar indemniadau a ddarperir i'r diben hwn yn briodol ac yn ddigonol?

Ydy

Nac ydy

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 43: A ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno terfyn statudol ar indemniadau trwy is-ddeddfwriaeth?

Dylai

Na ddylai

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cwestiwn 44: Beth yw'r rhwystrau ymddangosiadol rhag sefydlu pwyllgorau safonau rhanbarthol, os oes rhai?